Gwasanaeth Democrataidd
Democratig Service
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

# PANEL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

Cofnodion o gyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar **16 Mai 2014**
Ystafell Bwyllgor 1, Llangefni

**Presennol:** **Cyngor Gwynedd**
Cyng. John Brynmor Hughes
Cyng. John Pughe Roberts
Cyng. John Wyn Williams
Cyng. Owain Williams

**Cyngor Sir Ynys Môn**
Cyng. Lewis Davies
Cyng. Ann Griffith
Cyng. Victor Hughes
Cyng. William Thomas Hughes
Cyng. Nicola Roberts

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Gareth Jones | Rheolwr Gwasanaeth Cynllunio & Amgylchedd (CG) |
| Jim Woodcock | Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio & Gwarchod y Cyhoedd (CSYM) |
| Nia Davies | Rheolwr – UPCC |
| Heledd Fflur Jones | Arweinydd Tîm Economi & Busnes - UPCC |
| Eirian Harris | Cynorthwy-ydd Cynllunio Cefnogol – UPCC |

**Ymddiheuriadau:** Cyng. Gethin Glyn Williams (CG)
Cyng. Gwen Griffith (CG)
Cyng. Dyfrig Jones (CG)
Cyng. Dafydd Meurig (Eilydd – CG)
Cyng. Kenneth Hughes (CSYM)
Cyng. John Arwel Roberts (CSYM)

**1) YMDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

**2) DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatgan buddiant personol gan aelodau yn bresennol.

**3) MATERION BRYS**

Ni chyflwynwyd unrhyw faterion brys.

Cytunodd Cyng. Ann Griffith i gadeirio'r cyfarfod yn absenoldeb Cyng. John Arwel Roberts.

**4) COFNODION**

Cynigwyd a nodwyd fod cofnodion cyfarfod Panel 25 Ebrill, 2014 yn gywir.

**5) ADOLYGIAD O BOLISÏAU STRATEGOL A PHOLISÏAU MANWL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD:**

Cyflwynwyd adroddiad gan Heledd Fflur Jones yn amlinellu fersiynau diwygiedig o'r Polisïau Strategol yn dilyn newidiadau o ganlyniad sylwadau a dderbyniwyd yn ystod cyfnod ymgynghoriad cyhoeddus o'r Hoff Strategaeth. Gofynnir am farn y Panel am y newid geirfa i PS8, PS9 a PS15, ac am eiriad drafft cyfres o bolisïau manwl cyn adrodd i Bwyllgor Gwaith Ynys Môn a Cabinet Cyngor Gwynedd ac i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.

**ATODIAD A: POLISI STRATEGOL 8 A'R POLISÏAU MANWL CYSYLLTIEDIG - DARPARU AR GYFER ECONOMI FFYNIANNUS**

Mae PS8 yn gwarchod tir ar gyfer cyflogaeth ac amcanion busnesau a fuasai yn elwa o leoliad mewn parciau diwydiannol. Mae newidiadau priodol wedi cael eu cynnwys yn unol a'r ymgynghoriad. Cyflwynwyd geirfa drafft ar gyfer cyfres o bolisïau manwl sy'n cefnogi'r Polisi Strategol. Dyma restr ohonynt:

Cyf 1: Gwarchod Tir ac Unedau ar gyfer Defnydd Cyflogaeth
Cyf 2: Defnyddiau Ategol ar Safleoedd Cyflogaeth
Cyf 3: Unedau Diwydiannol/Busnes Newydd ar gyfer Defnyddwyr Safleoedd Unigol.....
Cyf 4: Defnyddiau Amgen ar Safleoedd Cyflogaeth
Cyf 5: Ail-ddefnyddio ac Addasu Adeiladau Gwledig neu Uned Breswyl ar gyfer defnydd Busnes.
Cyf 6: Cyflogaeth mewn Canolfannau Gwasanaeth Lleol neu Bentrefi
Cyf 7: Arallgyfeirio Amaethyddol
Cyf 8: Safleoedd Adfywio

Pwyntiau a godwyd:

- Holwyd sut fydd tŵf yn digwydd mewn ardaloedd fel Pwllheli a Porthmadog – mae busnesau bychan yn bwysig i'r ardaloedd yma. Oes yna syniadau sut mae hybu busnesau bychan? Sylwir fod ceisiadau cynllunio yn cael eu gwrthod. Mae angen rhoi sylw manwl i fusnesau bychan.
- Sylwir nad ydy safle 'Lairds' wedi ei gynnwys yn rhestr a welir ym Mholisi Cyf 1: Gwarchod Tir ac Unedau ar gyfer Defnydd Cyflogaeth. Mae yna drafodaethau wedi bod gyda pherchnogion ynglŷn a dyfodol y safle.
- Codwyd pwynt ynglŷn a'r angen am band eang a bod rhaid sicrhau fod isadeiledd hyn mewn lle i gefnogi busnesau yn enwedig mewn ardaloedd tlawd er mwyn creu cyfleon a chefnogaeth.
- Angen hyblygrwydd o ran busnesau bychan rhag ofn bydd polisïau'n gwahardd iddynt leoli mewn rhai llefydd e.e. o fewn pentrefi, a nad yw eu datblygiad yn cael ei atal.

- Tra'n cytuno bod busnesau bach yn bwysig mae angen ystyried mwynderau trigolion cyfagos os ydynt, e.e. wedi cael eu lleoli mewn ardaloedd preswyl.
- Nodir fod Bryn Cegin yn safle gwag ac mae Parc Menai yn cael ei hybu fel defnydd cymysg. Angen polisïau sydd yn mynd i wneud wir-wahaniaeth, gan hyrwyddo datblygiad sy'n mynd i roi hwb i ddatblygiad ar safleoedd.

Ymateb swyddogion:

- Mae yna gyfres o bolisïau manwl sydd yn mynd i greu cyfleoedd i fusnesau bychan mewn mannau priodol o fewn neu wrth ymyl aneddleoedd.
- Yn dilyn arolwg o dir cyflogaeth, gwelwyd fod safle 'Lairds' gynt yn fwy addas ar gyfer defnydd hamdden.
- Esboniwyd fod Cyf 3 yn gwarchod tir ar safleoedd diwydiannol a busnes ar gyfer defnydd B1, B2 a B8. Mae Cyf 4 yn cydnabod y gall achosion godi yn achlysurol iawn, e.e. lle mae safle wedi bod yn wag ers amser neu nad ydy'r adeiladau cyfredol yn cwrdd a galw busnesau i'r dyfodol, lle bod angen ychydig o hyblygrwydd. Mewn achosion eithriadol gellir hyrwyddo defnydd amgen ar y safle. Nodwyd y byddai angen tystiolaeth i ddangos nad ydy cadw'r defnydd gwreiddiol yn hyfyw a bod y defnydd amgen yn briodol i'r safle ac yn cyd-fynd a pholisiau'r Cynllun.

**ATODIAD B: YR ECONOMI YMWELWYR**

Mae PS9 yn adnabod pwysigrwydd twristiaeth o fewn ardal y Cynllun, nid yn unig i atyniadau ymwelwyr a lletyau ond yr effaith anuniongyrchol ar fusnesau lleol. Dyma restr o bolisïau manwl i gefnogi'r Polisi Strategol:

TWR/1: Atyniadau a chyfleusterau ymwelwyr
TWR/2: Llety Gwyliau
TWR/3: Safleoedd Carafanau Sefydlog a Sialé
TWR/4: Deiliadaeth Gwyliau
TWR/5: Safleoedd Carafanau Teithiol a Gwersylla
TWR/6: Llety Gwersylla Amgen

Pwyntiau a godwyd:

- Angen rheoli defnydd llety gwyliau gan fod defnydd preswyl mewn nifer ohonynt.
- Holwyd ynglyn a'r posibilrwydd o gael canllaw sydd yn rheoli niferoedd o garafanau ar safleoedd, - cael safleoedd llai yn hytrach na rhai mawr sydd yn ymestyn.
- Awgrymwyd mai profi'r angen am garafanau ddylid ei wneud yn hytrach na phrofi bod yna ormodaeth.
- Ar ran gormodaeth, os modd i atal dau safle ymuno trwy ail edrych ar yr eirfa.
- Nodwyd fod Polisi TWr/4 yn cyfeirio at lety yn addas i fyw ynddynt, ac felly angen edrych ar yr eirfa i wahardd hyn.
- Codwyd pwynt nid oes adnoddau i reoli safleoedd, felly oes modd rhoi'r baich ar berchnogion i ddangos sut maent yn mynd i ddelio a'r angen i'w rheoli? Mae yna esiampl bod cwmnïoedd mawr yn ymdrin â'r broblem.
- Oes modd gosod amodau i reoli'r broblem o gyfradd llenwi tymor hir? Llofnodi siarter i reoli?
- Awgrymwyd fod TWR3 yn gymhleth. Efallai byddai ei rannu i bolisïau unigol yn haws i'w ddilyn.
- Awgrymwyd i ychwanegu geirfa...'cymuned leol' ... yn TWR/4: 4)
- TWR/6 yn llawer mwy cyfyng na pholisi TWR/5. Ar un ochr credwyd o ran natur fod 'yurts' yn fwy tebyg i garafanau statig. Teimlwyd nad yw'n deg eu cymharu i garafanau teithiol.

- Ar y llaw arall credai rhai aelodau'r Panel nad ydynt yn wahanol i garafanau teithio gan eu bod yn gallu bod yn hawdd i'w symud ar ddiwedd tymor gwyliau. Awgrymwyd nad ydynt ddigon cadarn i wrthsefyll gaeafau.
- Awgrymwyd bod angen cael safleoedd penodol a dulliau rheoli maint ar eu cyfer neu beryg iddynt fynd yn safleoedd tebyg i safleoedd carafanau parhaol yn y dyfodol. Ar y llaw arall nodwyd bod Polisi TWR/6 yn cyfeirio at ddatblygiad 'graddfa fach' lle nad oes cyfeiriad at hynny wrth sôn am safleoedd carafannau newydd

Ymateb swyddogion:

- Cytunwyd bod angen croesgyfeirio i Bolisi TWR/4 sy'n cyfyngu defnydd llety hunanwasanaeth i ddibenion gwyliau yn unig.
- Cytunwyd i edrych ar ail eirio maen prawf 1b i gyfeirio at angen am safleoedd carafannau yn hytrach na phrofi gormodaeth.
- O ran rheoli maint safleoedd presennol mae'r eglurhad i'r polisi arfaethedig yn cyfeirio at 10% o gynnydd yn nifer yr unedau.
- Cytunwyd bod Polisi TWR/3 yn gymhleth ac edrychir ar ddulliau i symleiddio neu ei rannu i fwy nag un polisi.
- Ynglŷn â rheolaeth cyfradd llenwi'r safleoedd nid yw'n bosib gorfodi'r perchnogion i reoli'r gyfradd llenwi. Ond mae'r cyfle gan swyddogion adeg cyflwyno cais i ofyn am wybodaeth sut maent yn mynd i ymdrin â'r broblem.
- Cytunwyd i ychwanegu cyfeiriad at fwynderau'r gymuned leol ym Mholisi TWR/4
- Cytunwyd i edrych ar eiriad TWR/6 a chyfeirio'r Polisi yma'n ôl i'r Panel.

**PS15: DIOGELU A GWELLA ASEDAU TREFTADAETH**

Cyflwynwyd adroddiad gan Nia Davies yn amlinellu'r pwysigrwydd o ddiogelu ein hasedau treftadaeth gan gynnwys bob agwedd hanesyddol. Mae'n ddyletswydd ar Awdurdodau Cynllunio Lleol i sicrhau ein bod yn diogelu a mwyhau'r arwyddocâd a nodwedd o'n hasedau treftadaeth. Mae Atodiad C yn dangos tabl sydd yn rhestru deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol sydd yn bodoli ar hyn o bryd. Oherwydd hynny, nid yw'r Cynllun yn cynnwys polisïau manwl a fyddai ond yn ail adrodd deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol. Dyma restr o'r polisïau manwl i gefnogi'r Polisi Strategol:

AT1: Ardaloedd Cawraeth, Safle Treftadaeth y Byd a Thirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig
AT2: Datblygiadau sy'n Galluogi
AT3: Asedau Treftadaeth nad ydynt wedi'u Dynodi sydd o Arwyddocâd Lleol neu Ranbarthol
AT4: Diogelu Safleoedd Archeolegol nad ydynt wedi'u Dynodi

Pwyntiau a godwyd:

- Cyfeiriwyd at y ffaith mai CADW sydd gyda'r pwerau i restru adeiladau a gofynnwyd sut maent yn diffinio gerddi hanesyddol, e.e. Y Faenol.
- Nodwyd cefnogaeth i'r polisïau manwl.
- Nodwyd pwysigrwydd i fod ddigon cryf a chadarn i wrthwynebu ceisiadau am beilonau yn yr ardaloedd sensitif
- Awgrymwyd nad oedd yna ddigon o gydnabyddiaeth i'w gael i Dre'r Ceiri - mae hwn yn ased pwysig iawn.
- Awgrymwyd nad oedd y Cyngor yn gwneud digon i hyrwyddo safleoedd llai amlwg ac nad oedd hanes yr ardal yn cael ei hyrwyddo'n lleol.

Ymateb swyddogion:

- Mae yna feini prawf cenedlaethol i allu adnabod gerddi hanesyddol.

- O ran y prosiect i gryfhau'r rhwydwaith peilonau, mae safbwynt Gwynedd a Môn yn debyg. Bydd y ddau Gyngor yn parhau i weithio ar y cyd er mwyn sicrhau bod yr opsiwn gorau'n cael ei adnabod.
- Nodwyd y sylwadau am yr angen i godi ymwybyddiaeth lleol ac ymwelwyr o asedau llai amlwg.

Diolchwyd i Cyng. Ann Griffith am gadeirio'r cyfarfod.